Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Lles Plant ac Ysgolion

Medi 2025

senedd.cymru

# 1. Y cefndir

## Bil Lles Plant ac Ysgolion Llywodraeth y DU

**1.** Cyflwynwyd y Bil Lles Plant ac Ysgolion[1] (y Bil) yn Nhŷ'r Cyffredin a chafodd ei ddarlleniad cyntaf ar 17 Rhagfyr 2024. Noddir y Bil gan yr Adran Addysg.

**2.** Mae Nodiadau Esboniadol y Bil yn datgan fel a ganlyn:

> *"The Children's Wellbeing and Schools Bill ("the Bill") has 38 measures aiming to deliver the Labour Party's 2024 commitments to remove barriers to opportunity in schools and improve the education system to make it more consistent and safer for every child.*
>
> *It also seeks to deliver commitments in the Labour Party's 2024 manifesto on Children's Social Care by strengthening regulation, improving quality of care to ensure it meets children's needs and keeping children rooted in their families and local communities where possible."*[2]

**3.** Mae enw hir y Bil yn datgan ei ddiben fel a ganlyn:

> *"Make provision about the safeguarding and welfare of children; about support for children in care or leaving care; about regulation of care workers; about regulation of establishments and agencies under Part 2 of the Care Standards Act 2000; about employment of children; about breakfast club provision and school uniform; about attendance of children at school; about regulation of independent educational institutions; about inspections of schools and colleges; about teacher misconduct; about Academies and teachers at Academies; repealing section 128 of the Education Act 2002; about school places and admissions; about establishing new schools; and for connected purposes."*[3]

[1] Y Bil Lles Plant ac Ysgolion, fel y'i cyflwynwyd (Bil 151)
[2] Nodiadau Esboniadol i'r Bil Lles Plant ac Ysgolion, fel y'i cyflwynwyd, paragraffau 1 a 2
[3] Y Bil Lles Plant ac Ysgolion, fel y'i cyflwynwyd, tudalen 1

**4.** Cwblhaodd y Bil ei daith trwy Dŷ'r Cyffredin ar 18 Mawrth 2025. Cafodd y Bil ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 19 Mawrth 2025.[4] Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd y Bil yn mynd drwy'r cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi.

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

**5.** Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu bod angen memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fo un o Filiau perthnasol y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

**6.** Ar 24 Mawrth 2025, gosododd Lynne Neagle AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg (yr Ysgrifennydd Cabinet), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) gerbron y Senedd mewn cysylltiad â'r Bil.[5]

**7.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 16 Mai 2025.[6] Estynnwyd y terfyn amser adrodd yn ddiweddarach i 19 Medi 2025.[7]

### Darpariaeth y mae angen cydsyniad y Senedd ar ei chyfer

**8.** Dywed y Memorandwm:

> *"Cyflwynwyd y Bil fel Bil i Loegr yn unig. Cyflwynwyd gwelliannau ar 10 Mawrth 2025 sy'n gofyn am gydsyniad y Senedd i'r graddau y maent yn ymwneud ag addysg a gofal cymdeithasol yng Nghymru."*[8]

**9.** Y meysydd o fewn y Bil a fydd yn gymwys i Gymru yw'r rhai sy'n ymwneud â'r canlynol:

- plant mewn llety diogel;
- estyn y drosedd o gam-drin plentyn gan weithiwr gofal i gynnwys pobl ifanc 16 a 17 oed;

[4] Bil Tŷ'r Arglwyddi 84 (fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin)
[5] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Lles Plant ac Ysgolion, 24 Mawrth 2025
[6] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Y Bil Lles Plant ac Ysgolion, Mawrth 2025
[7] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Lles Plant ac Ysgolion, Mehefin 2025
[8] Y Memorandwm, paragraff 8

- plant nad ydynt yn yr ysgol.[9]

**10.** Dyma'r cymalau penodol y ceisir cydsyniad ar eu cyfer (mae'r cymalau'n cyfeirio at y Bil fel y'i diwygiwyd gan y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus[10]):

- Cymal 11 – Defnyddio llety ar gyfer amddifadu rhyddid (cymal 10 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd)
- Cymal 20 – Camdriniaeth neu esgeulustod bwriadol: plant 16 a 17 oed (cymal 19 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd)
- Cymalau 25 i 30[11] – Plant nad ydynt yn yr ysgol (cymalau 24 i 29 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd)
- Atodlen 1 i'r Bil fel y'i cyflwynwyd – Plant nad ydynt yn yr ysgol: diwygiadau canlyniadol.[12]

**11.** Mae Llywodraeth y DU yn cytuno bod angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau hyn.[13]

## Pwerau dirprwyedig

**12.** Mae'r Bil fel y'i diwygiwyd yn darparu pwerau gwneud rheoliadau amrywiol i Weinidogion Cymru. Mae'r Memorandwm yn cynnwys tabl o'r gweithdrefnau craffu a gaiff eu cymhwyso i'r pwerau hyn[14] ac yn nodi:

> *"Mae gwelliannau yn ei gwneud hi'n glir bod Gweinidogion Cymru yn gwneud y rheoliadau mewn perthynas â Chymru a bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud y rheoliadau mewn perthynas â Lloegr."*[15]

[9] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig ar y Bil Lles Plant ac Ysgolion, 10 Mawrh 2025
[10] Bil 177, fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus
[11] Er bod tudalen 6 o'r Memorandwm yn cyfeirio mewn teitl at "Rhan 2 – Plant nad ydynt yn yr ysgol, Cymalau 25-30 (a gyflwynwyd fel Cymalau 24-29) ac Atodlen 1", nid yw'r naratif sy'n dilyn yn cyfeirio'n benodol at gymal 30 (cymal 29 fel y'i cyflwynwyd) nac Atodlen 1; gweler paragraff 46 o'r adroddiad.
[12] Y Memorandwm, paragraffau 9 i 48
[13] Y Memorandwm, paragraff 49. Gweler hefyd Nodiadau Esboniadol ar gyfer Bil Tŷ'r Arglwyddi 84 (fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin), Atodiad A
[14] Y Memorandwm, paragraff 47
[15] Y Memorandwm, paragraff 47

## Safbwynt Llywodraeth Cymru

**13.** Dywed yr Ysgrifennydd Cabinet yn y Memorandwm:

> *"Mae swyddogion yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda swyddogion Llywodraeth y DU Dechreuodd trafodaethau ar gynnwys y Bil ym mis Medi 2024, a dros yr hydref ehangodd y rhain i ystyried ymestyn darpariaethau penodol i gwmpasu Cymru. Mae swyddogion Llywodraeth y DU a swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cadw mewn cysylltiad rheolaidd ers hynny i ddatblygu darpariaethau."*[16]

**14.** Mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn datgan y canlynol cyn nodi rhesymeg fanwl ar gyfer y cymalau sy'n gofyn am gydsyniad:[17]

> *"Mae cymryd darpariaeth yn y Bil hwn gan Senedd y DU yn galluogi cyflawni darpariaeth gadarnhaol i Gymru. Er y gellid cyflwyno darpariaeth mewn Bil gan y Senedd, byddai gwneud hynny'n effeithio ar gyflawni blaenoriaethau deddfwriaethol eraill ac ni ellid ei chyflawni o fewn yr un amserlenni â Bil y DU. Mae bod yn rhan o'r Bil hwn yn sicrhau bod plant Cymru yn ddarostyngedig i'r un amddiffyniadau â phlant Lloegr."*[18]

**15.** Dyma gasgliad yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"Yn fy marn i, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan Senedd y DU gan y bydd y rhain yn gwella polisi presennol ac arfaethedig Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag addysg ddewisol yn y cartref a phlant sy'n colli addysg; yn ogystal â darparu mynediad at lety a mesurau diogelu ar gyfer plant mewn lleoliadau gofal cymdeithasol ac iechyd. Bydd y darpariaethau yn mynd i'r afael â bylchau deddfwriaethol pwysig ar draws y ddwy genedl a byddant yn cefnogi awdurdodau lleol a phartneriaid i gyflawni eu dyletswyddau diogelu presennol. Byddai cael y Bil yn gwneud darpariaethau perthnasol i Gymru mewn perthynas â phlant nad ydynt yn yr ysgol yn creu amddiffyniad cyfartal i blant Cymru a Lloegr. Felly,*

[16] Y Memorandwm, paragraff 6
[17] Y Memorandwm, paragraffau 51 i 62
[18] Y Memorandwm, paragraff 50

*rwy'n argymell bod y Senedd yn cydsynio i'r Bil hwn sy'n gwneud darpariaeth mewn meysydd datganoledig."*[19]

## Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru ar 12 Mai 2025

### Dull a llinell amser digwyddiadau

**16.** Ar 10 Mawrth 2025, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cabinet, a Dawn Bowden AS, y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol (y Gweinidog), Ddatganiad Ysgrifenedig ar y Bil ar y cyd.[20] Nododd mai dim ond i Loegr y byddai'r Bil yn gymwys ar adeg ei gyflwyno a dywedodd:

> *"Os na fydd mesurau cyfatebol yn cael eu gweithredu yng Nghymru, byddai hyn yn arwain at lai o amddiffyniadau i'n plant na'u cymheiriaid yn Lloegr.*
>
> *O gofio hyn, rydym wedi trafod y Bil gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ac wedi gofyn i rai darpariaethau o fewn y Bil Lles Plant ac Ysgolion gael eu cymhwyso i Gymru yn yr un ffordd â Lloegr.*
>
> *(…)*
>
> *Mae Cyfnod Pwyllgor y Bil wedi dod i ben ac mae gwelliannau i ymestyn y cymalau sy'n cwmpasu'r meysydd uchod i Gymru yn cael eu hystyried ar hyn o bryd yn y Cyfnod Adrodd.*
>
> *Yn amodol ar gytundeb gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig, gellir cynnwys meysydd eraill o'r Bil yn nes ymlaen. Os bydd darpariaethau ychwanegol yn cael eu hymestyn i Gymru, bydd diweddariad pellach yn cael ei gyhoeddi."*

**17.** Gwnaethom drafod y Datganiad Ysgrifenedig yn ein cyfarfod ar 17 Mawrth 2025.[21] Yn y cyfarfod hwnnw, cytunwyd i wahodd yr Ysgrifennydd Cabinet a'r Gweinidog i roi tystiolaeth. Gwnaethom ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cabinet a'r Gweinidog ar 21 Mawrth 2025.[22] Gwnaethom hefyd ysgrifennu at y Llywydd fel

[19] Y Memorandwm, paragraff 66
[20] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig ar y Bil Lles Plant ac Ysgolion, 10 Mawrth 2025
[21] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 17 Mawrth 2025
[22] Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, 21 Mawrth 2025

Cadeirydd y Pwyllgor Busnes i dynnu sylw at ein pryderon ynghylch y Datganiad Ysgrifenedig yn ymwneud yn bennaf â gofynion Rheol Sefydlog 29.[23]

**18.** Cwblhawyd trafodion y cyfnod adrodd ar 18 Mawrth 2025,[24] wyth diwrnod ar ôl i'r datganiad gael ei osod a chwe diwrnod cyn i'r Memorandwm gael ei osod.

**19.** Cynhaliwyd y sesiwn dystiolaeth ar 12 Mai 2025.[25]

**20.** Gofynnwyd i'r Ysgrifennydd Cabinet pryd y daeth yn ymwybodol o'r Bil gyntaf, o ystyried bod y Memorandwm yn cyfeirio at gyfarfodydd rheolaidd rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion Llywodraeth y DU a thrafodaethau ar ei gynnwys yn dechrau ym mis Medi 2024.[26] Mewn ymateb, darparodd yr Ysgrifennydd Cabinet amserlen fanwl o ddigwyddiadau.[27] Yn benodol, dywedodd:

- daeth yn ymwybodol o'r Bil gyntaf pan gafodd ei briffio gan swyddogion ar yr hyn oedd yn Araith y Brenin[28] (a ddigwyddodd ar 17 Gorffennaf 2024[29]);
- cytunodd y dylai ei swyddogion archwilio a oedd manteision i estyn rhai o'r darpariaethau i Gymru neu bob un ohonynt, naill ai drwy ymuno â'r Bil neu gyflwyno Bil Llywodraeth Cymru i'r Senedd;[30]
- yn dilyn cyflwyno'r Bil ar 17 Rhagfyr 2024, nododd mewn galwad gyda Stephen Morgan AS ei bod yn awyddus i estyn rhai darpariaethau i Gymru, os yn bosibl.[31]

**21.** Nododd y Gweinidog hefyd fod trafodaethau manwl ynghylch elfennau gofal cymdeithasol y Bil wedi dechrau tua'r hydref a'i bod wedi cael ei briffio'n llawn gan swyddogion ym mis Ionawr 2025. Ychwanegodd fod yr holl ymgysylltiad rhyngweinidogol ynghylch y Bil wedi'i gyfarwyddo drwy Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, a dywedodd fod ei hymgysylltiad yn y broses hon wedi bod gyda'i swyddogion.[32]

[23] Llythyr at y Llywydd, 21 Mawrth 2025
[24] Y Bil Lles Plant ac Ysgolion, Trafodion y cyfnod adrodd (Tŷ'r Cyffredin)
[25] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 12 Mai 2025
[26] Y Memorandwm, paragraff 6
[27] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 12 Mai 2025, Cofnod y Trafodion [12 i 15]
[28] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 12 Mai 2025, Cofnod y Trafodion [12]
[29] Datganiad llafar i'r Senedd, Araith y Brenin 2024, 17 Gorffennaf 2024
[30] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 12 Mai 2025, Cofnod y Trafodion [13]
[31] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 12 Mai 2025, Cofnod y Trafodion [14]
[32] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 12 Mai 2025, Cofnod y Trafodion [16]

**22.** Pan ofynnwyd pam mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi aros tan y diwrnod y cafodd y gwelliannau eu cyflwyno yn Senedd y DU cyn hysbysu'r Senedd o'i bwriad i geisio darpariaethau yn y Bil ar gyfer Cymru, dywedodd:

> *"As the provisions tabled were as amendments to the Bill, for confidentiality reasons, I wasn't able to share the detail of these before they were made public through their tabling. We had very scarce information on the Bill up until its publication in December."*[33]

**23.** Rhoddodd ragor o wybodaeth hefyd am amserlen y digwyddiadau gan gynnwys bod cyfarwyddiadau polisi wedi'u trosglwyddo i Swyddfa'r Cwnsleriaid Seneddol ddiwedd mis Ionawr 2025 gyda rhai trafodaethau pellach ar y darpariaethau.[34] Esboniodd y Gweinidog y canlynol hefyd:

> *"... myself and Dawn tabled a written statement on the 10 March to inform Members that the UK Government would be tabling amendments to the Bill to include Wales in some of the measures. I was keen to make sure that Members had prior notice ahead of those being laid by the UK Government later that day, and I did that, obviously, to ensure as much transparency as we could ahead of the laying of the LCM. That reflects previous practice where Welsh Government has proactively engaged with the UK Government with a view to developing devolved provisions within a UK Bill."*[35]

**24.** Nodwyd gennym fod y Memorandwm wedi'i osod chwe diwrnod ar ôl cwblhau trafodion y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin ond nad oedd unrhyw gyfrif na chrynodeb o'r trafodion hyn wedi'u cynnwys yn y Memorandwm. Pan gafodd ei holi ar y pwynt hwn, gwnaeth yr Ysgrifennydd Cabinet gydnabod os mai barn y pwyllgor yw dylid fod wedi darparu mwy o wybodaeth mewn perthynas â hynny, yna dywedodd ei bod yn hapus iawn i ystyried hynny.[36]

[33] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 12 Mai 2025, Cofnod y Trafodion [18]
[34] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 12 Mai 2025, Cofnod y Trafodion [19]
[35] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 12 Mai 2025, Cofnod y Trafodion [20]
[36] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 12 Mai 2025, Cofnod y Trafodion [23]

## Ystyriaeth a roddir ar gyfer gwneud darpariaeth mewn Bil gan y Senedd

**25.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi cael trafodaethau ynghylch a fyddai'n bosibl datblygu Bil gan y Senedd.[37] Ychwanegodd:

> *"You'll be aware that we have a legislative programme already. We're coming to the very end of this Senedd term. And I was also very mindful that I didn't want us to be in a position where children in Wales had less protection than children over the border. So, as far as I'm concerned—and, as I say, with that lens of what was best for children—this seemed like the most appropriate way to do that. There is the potential for cross-border issues arising from the Bill, and we were really keen, especially with the child protection aspects of the Bill, to ensure that those issues didn't arise. So, it seemed to me to be the quickest, most appropriate way to do this under the circumstances."*[38]

**26.** Gwnaethom holi ai defnyddio Bil y DU yw'r dull cyflymaf o wneud deddfwriaeth sylfaenol, a chydnabu'r Ysgrifennydd Cabinet nad oedd sgyrsiau wedi digwydd gyda'r Senedd drwy'r Pwyllgor Busnes ynghylch cyflwyno Bil Llywodraeth Cymru a'r Bil hwnnw'n dod yn gyfraith cyn y diddymiad.[39] Nododd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn trafod yn fewnol y rhaglen ddeddfwriaethol bresennol a'r hyn y mae eisoes yn ei chael hi'n anodd cyflawni, gan ychwanegu na fyddai'r amserlen wedi ei galluogi i gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol bellach yn ystod blwyddyn olaf tymor y Senedd hwn.[40]

**27.** Pan wnaethom awgrymu mai diffyg capasiti Llywodraeth Cymru, yn hytrach na'r Senedd, oedd yn gyfrifol am hyn, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"Obviously, there has to be time found for legislation. We did look at the capacity issues, and there will be capacity issues arising from dealing with the secondary legislation associated*

[37] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 12 Mai 2025, Cofnod y Trafodion [26]
[38] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 12 Mai 2025, Cofnod y Trafodion [26]
[39] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 12 Mai 2025, Cofnod y Trafodion [27 i 32]
[40] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 12 Mai 2025, Cofnod y Trafodion [33]

> *with this legislation. And it would also have been a question of officials to work on that then as well."*[41]

**28.** O ran cyfiawnhau ei phwrpas dros ddeddfu a'r dull cyfatebol a fabwysiadwyd, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"I recognise that the way that this has been done does impact on the scrutiny to date, but what I would say to the committee is that we will have further opportunities to scrutinise the detail of this, because we are going to have to bring forward the implementation through secondary legislation, and there will be lots of opportunities for scrutiny through that; lots of opportunities for consultation through that. My officials have already been talking to the children's commissioner about leading on the consultation with affected families. So, while I recognise that, from a committee scrutiny point of view, it's not an optimum situation, I have had to balance that with the decision that I've taken around protecting the rights of children and doing what's best for them."*[42]

**29.** Gwnaethom hefyd godi pryderon ynghylch y graddau y mae'r fframwaith deddfwriaethol yn cael ei ddrysu trwy ddefnyddio Bil y DU a rheolaeth yr agenda bolisi, yn rhannol gan fod y gyfres o ddarpariaethau wedi cael eu datblygu ar gyfer sefyllfa yn Lloegr. O ganlyniad, gwnaethom dynnu sylw at y ffaith y gellid bod wedi datblygu deddfwriaeth a oedd yn fwy cydnaws â pholisi Llywodraeth Cymru.[43]

**30.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym:

> *"… it's important to recognise that this is part of a suite of measures in relation to children who are educated at home and children who are missing education. We published statutory guidance on elective home education in 2023, which was in response to numerous concerns that were raised about home education, and you'll be aware that some of those situations had in fact led to tragedy. So, we introduced the statutory guidance on home education back in 2023, but we and local authorities were concerned that we needed to do more. Not so long ago, I took the regulations on the children*

[41] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 12 Mai 2025, Cofnod y Trafodion [35]
[42] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 12 Mai 2025, Cofnod y Trafodion [39]
[43] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 12 Mai 2025, Cofnod y Trafodion [43 a 46]

> *missing education database through the Senedd. That is separate but aligned to this, because that is designed to make sure that we know where all the children are, which, at the moment, is quite challenging, and we're piloting that in seven areas.*
>
> *But this latest provision, through the UK Government's primary legislation, is really designed to strengthen our position through the children not in school registers, through the strengthening of school attendance orders, and vitally through the child protection proceedings as part of it. So, I think, taken all together, they form a suite of actions to protect the rights of children, to safeguard them, and also to ensure that they get a high-quality education, which is their right. But there will, as I said, be further consultation. We will have control over how this is taken forward through subordinate legislation, which will be subject to scrutiny of the Senedd and full consultation."*[44]

**31.** Nid oedd yr Ysgrifennydd Cabinet yn credu ei fod yn achos o daro 'peg sgwâr i mewn i dwll crwn', gan ychwanegu:

> *"… there have been calls for many years for strengthened legislation in this space, since the death of Dylan Seabridge back in 2011 (….) the Children's Commissioner for Wales used her legal powers to review the Welsh Government's activity in this space in the last Senedd. At the time, I was Chair of the Children, Young People and Education Committee. We supported the children's commissioner in her actions and also wrote numerous letters ourselves. And a key ask of the children's commissioner and the safeguarding board for Wales was for there to be a register of children who are not in school. So, I think that it is entirely in keeping with the way that policy has been developed in Wales for several years. I think that it consolidates it and strengthens it in a way that we can have much more assurance through."*[45]

[44] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 12 Mai 2025, Cofnod y Trafodion [44 i 45]
[45] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 12 Mai 2025, Cofnod y Trafodion [47]

**32.** Nododd y Gweinidog hefyd fod Llywodraeth y DU, wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth, wedi nodi bylchau ynghylch amddiffyn pobl 16 a 17 oed sy'n parhau yn y system gofal, ac mae'r Bil yn cau'r bylchau hynny. Ychwanegodd:

> *"And the second aspect is about us continuing with the situation that we currently have, where looked-after children in Wales can be placed in accommodation in England, if that is considered to be the most appropriate accommodation for them (...) the provisions of the amendment as it applies to Wales means that, if there is a new type of accommodation that is ahead of us in terms of its development in England, we would be able to place Welsh children there if we considered that to be appropriate. And it may well be that we will have to legislate similarly to enable that to happen the other way around, from England into Wales as well."*[46]

**33.** Yna gofynnwyd pam mae'r Bil hwn yn cael ei ystyried fel y cyfle cynharaf i ddeddfu ar y mater hwn ers marwolaeth drasig Dylan Seabridge yn 2011. Wrth ymateb, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"I think that that's a fair question. I have set out some of the background to this in terms of the children's commissioner's review, the statutory guidance. I can only really answer for myself. I came into post at the end of March last year. The children missing education database regulations were in the process of being worked up then, and obviously I supported those. Then the opportunity arose, and I saw immediately in the King's Speech that there was an opportunity to strengthen the legislation, and I have been keen to take that opportunity to do that. So, as far as I'm concerned, I have taken the earliest opportunity that I could to follow up an issue that I have raised concerns about consistently for many years."*[47]

**34.** Yna gofynnwyd a oedd cyfeiriad y Gweinidog at y ffaith bod Llywodraeth Cymru yn ei chael hi'n anodd cyflawni ei hagenda ddeddfwriaethol yn un o'r rhesymau pam nad ystyriodd Llywodraeth Cymru gyflwyno Bil ochr yn ochr â Bil Llywodraeth y DU ar gyfer Lloegr, a hynny er mwyn rhoi cyfle i'r ddwy Senedd gynnal gwaith craffu ar yr un pryd, fel nad oedd unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth

[46] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 12 Mai 2025, Cofnod y Trafodion [49]
[47] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 12 Mai 2025, Cofnod y Trafodion [56]

rhwng Cymru a Lloegr.[48] Atebodd yr Ysgrifennydd Cabinet drwy ddweud y canlynol:

> *"… we did consider our own Bill, but it wasn't felt to be practical in terms of timing, et cetera, in terms of the work that was already in train by officials in education, and also in terms of an already packed legislative programme."*[49]

**35.** Roedd yr Ysgrifennydd Cabinet yn fodlon bod y dull yn dilyn egwyddorion Llywodraeth Cymru ei hun[50] ar gyfer defnyddio Biliau Llywodraeth y DU i ddeddfu mewn maes datganoledig,[51] gan ychwanegu:

> *"Our principles state that it would be appropriate where Welsh-made provision could not otherwise be delivered within a suitable time frame, and also where the interconnected nature of the relevant Welsh and English administrative systems mean that it is most effective and appropriate for provision for both to be taken forward at the same time in the same legislative instruments. So, I spoke earlier about the fact that I'm concerned about the cross-border issues and the implications of having less protection in Wales when there is more protection for children in England. So, that was a consideration in relation to that."*[52]

**36.** Nododd yr Ysgrifennydd Cabinet mai amryfusedd oedd yn gyfrifol am absenoldeb cyfeiriadau at gymalau penodol ac Atodlen, ac y byddai'n cael ei gywiro gyda memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol.[53] Nododd swyddog a oedd gyda'r Ysgrifennydd Cabinet hefyd fod ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddarpariaethau ynghylch cyflogaeth plant mewn perthynas â Lloegr yn y Bil a sut y gallent fod yn gymwys i Gymru, o ystyried natur neilltuedig rhai o'r elfennau hynny.[54]

---

[48] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 12 Mai 2025, Cofnod y Trafodion [60]
[49] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 12 Mai 2025, Cofnod y Trafodion [61]
[50] Llywodraeth Cymru, Egwyddorion ar Ddeddfwriaeth y DU mewn meysydd datganoledig, Rhagfyr 2024
[51] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 12 Mai 2025, Cofnod y Trafodion [63]
[52] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 12 Mai 2025, Cofnod y Trafodion [63]
[53] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 12 Mai 2025, Cofnod y Trafodion [75]
[54] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 12 Mai 2025, Cofnod y Trafodion [87]

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) Llywodraeth Cymru

**37.** Gosododd yr Ysgrifennydd Cabinet Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) mewn cysylltiad â’r Bil ar 28 Mai 2025.[55]

**38.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes i newid y dyddiad cau ar gyfer y memoranda i 11 Gorffennaf 2025.[56] Estynnwyd y terfyn amser adrodd yn ddiweddarach i 19 Medi 2025.[57]

### Darpariaeth y mae angen cydsyniad y Senedd ar ei chyfer (gan gynnwys pwerau dirprwyedig)

**39.** Ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Cabinet at y Pwyllgor ar 28 Mai 2025 yn ei hysbysu am osod Memorandwm Rhif 2 sy'n ymwneud â diwygiadau i gymal 26 (Cyflogi plant yn Lloegr) o'r Bil (fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin[58]) sy'n berthnasol i Reol Sefydlog 29.[59]

**40.** Mae Memorandwm Rhif 2 yn darparu’r wybodaeth a ganlyn o ran pam mae angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y diwygiadau i gymal 26:

> *“Rhan II o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933 ("Deddf 1933") sy'n nodi'r fframwaith cyfreithiol presennol ar gyfer cyflogi plant yng Nghymru a Lloegr. Ystyr "child", at ddibenion Deddf 1933, yw person nad yw dros oedran ysgol gorfodol.*
>
> *(…)*
>
> *Roedd y diwygiadau arfaethedig i adran 18 o Ddeddf 1933 wrth gyflwyno'r Bil yn berthnasol i ddechrau i Loegr yn unig. Mae'r diwygiadau i gymal 26 a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ar 17 Mai 2025 cyn Cyfnod y Pwyllgor a ddechreuodd yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 20 Mai, bellach yn estyn y diwygiadau i adran 18 o Ddeddf 1933 i Loegr a Chymru.*

---

[55] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) Bil Lles Plant ac Ysgolion, 28 Mai 2025
[56] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Lles Plant ac Ysgolion, Mehefin 2025
[57] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Lles Plant ac Ysgolion, Mehefin 2025
[58] Bil Tŷ’r Arglwyddi 84 (fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin)
[59] Llythyr gan Lynne Neagle AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, 28 Mai 2025

*Mae cymal 26 o'r Bil yn dileu adran 18 Deddf 1933 ac yn rhoi adran 18 (Cyfyngiadau ar gyflogi plant) ac adran 18A (Rheoliadau o dan adran 18: darpariaeth bellach) newydd yn ei lle.*

*Mae'r gwelliannau yn rhoi pŵer rheoleiddio newydd i Weinidogion Cymru fel yr "awdurdod cenedlaethol priodol" i Gymru i reoleiddio cyflogaeth plant. Mae'r pŵer rheoleiddio newydd hwn i Weinidogion Cymru yn disodli pŵer presennol awdurdodau lleol i wneud is-ddeddfau cyflogaeth plant. Byddai rheoliadau a wneir o dan y gwelliant yn cael eu gwneud o dan y weithdrefn negyddol."*[60]

**41.** Mae Memorandwm Rhif 2 hefyd yn nodi safbwynt Llywodraeth y DU:

*"Ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ar 13 Mai 2025 ynglŷn â gwelliannau i Gymal 26 (Cyflogi Plant) o'r Bil Lles Plant ac Ysgolion cyn Cyfnod y Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 20 Mai. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod gwelliannau'r llywodraeth yn cynnwys darpariaeth sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a bod yr Ysgrifennydd o'r farn bod angen cynnig cydsyniad deddfwriaethol er gwaethaf y ffaith bod cyflogaeth yn fater wedi'i gadw'n ôl yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Fodd bynnag, mae'r DfE yn cydnabod bod unrhyw fater sy'n ymwneud â chyflogaeth plant hefyd yn cyffwrdd â lles plant, sy'n fater wedi'i ddatganoli."*[61]

## Safbwynt Llywodraeth Cymru

**42.** Dywed yr Ysgrifennydd Cabinet:

*"Mae hawliau a dyletswyddau cyflogaeth wedi'u cadw yn ôl o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006; fodd bynnag, mae diogelu/lles yn faterion wedi'u datganoli. Rydym wedi edrych ar gymhwysedd y darpariaethau hyn ac rydym o'r farn bod y prawf yn Rheol Sefydlog 29 wedi'i fodloni a bod y Bil yn gwneud*

[60] Memorandwm Rhif 2, paragraffau 10, 14 i 16
[61] Memorandwm Rhif 2, paragraff 25

*"darpariaeth berthnasol" mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig."*[62]

**43.** Ychwanegodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"Mae bod yn rhan o'r Bil hwn yn sicrhau bod plant Cymru yn cael yr un amddiffyniadau â phlant Lloegr o ran cyflogaeth plant.*
>
> *Mae'n sicrhau bod cydraddoldeb yn y gyfraith ledled Cymru a Lloegr yn y maes hwn. Os na ddywedir bod y gwelliannau hyn yn berthnasol i Gymru, byddai Cymru'n cadw'r system is-ddeddfau bresennol tra byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn Lloegr yn cael arfer pwerau i wneud rheoliadau yn y maes hwn. Un o fanteision cyflwyno pwerau gwneud rheoliadau fyddai cysondeb o ran rheoliadau a threfn safonol i fynnu trwyddedau cyflogaeth plant ledled Cymru (yn hytrach na gwahaniaethau posibl yn hyn o beth fyddai'n deillio o barhau i ganiatáu i awdurdodau lleol gyflwyno a gweithredu is-ddeddfau lleol)."*[63]

**44.** Dyma gasgliad yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"Yn fy marn i, mae'n briodol i Senedd y DU ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan y byddant yn gwella polisi presennol ac arfaethedig Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyflogaeth plant a diogelu. Hyd y gallaf ddweud, nid ydym erioed wedi derbyn unrhyw geisiadau gan awdurdod lleol i gymeradwyo is-ddeddf. O'n trafodaethau gydag arweinwyr diogelu awdurdodau lleol maent wedi bod yn gefnogol i'r gwelliannau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth ac yn cytuno â nhw. Mae'n ymddangos bod y ddeddfwriaeth fwy neu lai yn ailadrodd ac yn normaleiddio arferion presennol, i'r graddau ein bod yn credu bod gwahaniaethau sylweddol eisoes i drefniadau presennol cyflogwyr ynghylch darpariaethau sy'n dyddio'n ôl i'r cyfnod cyn yr Ail Ryfel Byd, ac nad ydynt yn gyson ag arferion gwaith modern. Rwy'n argymell felly bod y Senedd yn cefnogi'r cynigion ac yn rhoi ei chydsyniad."*[64]

[62] Memorandwm Rhif 2, paragraff 28
[63] Memorandwm Rhif 2, paragraffau 29 ac 30
[64] Memorandwm Rhif 2, paragraff 34

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) Llywodraeth Cymru

**45.** Gosododd yr Ysgrifennydd Cabinet Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar 12 Mehefin 2025 mewn cysylltiad â'r Bil.[65]

### Darpariaeth y mae angen cydsyniad y Senedd ar ei chyfer (gan gynnwys pwerau dirprwyedig)

**46.** Mae Memorandwm Rhif 3 yn nodi bod y cymalau a ganlyn (o'r Bil fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin[66]) sy'n gofyn am gydsyniad wedi'u hepgor o'r Memorandwm mewn camgymeriad[67] (gweler tystiolaeth yr Ysgrifennydd Cabinet ym mharagraff 36):

- Cymal 35 (Plant nad ydynt yn yr ysgol: diwygiadau canlyniadol) ac Atodlen 2[68] sy'n ymwneud â phwerau i wneud diwygiadau canlyniadol mewn perthynas â Chymal 32[69] (Gorchmynion Mynychu'r Ysgol)[70]

- Cymal 63 (Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol)[71], sy'n rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaeth ganlyniadol gan gynnwys diwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol, gan gynnwys i Ddeddfau'r Senedd[72]

- Cymal 66 (Pwerau Cychwyn)[73] sy'n ymwneud â phwerau cychwyn ac yn nodi pa bryd y byddai'r darpariaethau yn y Bil yn dod i rym yng Nghymru. Mae'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i gychwyn cymalau 30 i 35[74] ac Atodlen 2 (y darpariaethau plant nad ydynt yn yr ysgol, a'r rheoliadau y bydd eu hangen i'w dwyn i rym).[75]

**47.** Mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi nodi ei safbwynt ar gydsyniad, sef bod y cymalau sy'n ymwneud â phlant nad ydynt yn yr

[65] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) Bil Lles Plant ac Ysgolion, 12 Mehefin 2025
[66] Bil Tŷ'r Arglwyddi 84 (fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin)
[67] Memorandwm Rhif 3, paragraff 15
[68] Cymal 29 ac Atodlen 1 y Bil fel y'i cyflwynwyd
[69] Cymal 26 fel y'i cyflwynwyd
[70] Memorandwm Rhif 3, paragraff 11
[71] Cymal 56 fel y'i cyflwynwyd
[72] Memorandwm Rhif 3, paragraff 13
[73] Cymal 59 fel y'i cyflwynwyd
[74] Cymalau 24 i 29 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd; cymalau 25 i 30 o'r Bil fel y'i diwygiwyd gan y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus yn Nhŷ'r Cyffredin. Gweler troednodyn 10.
[75] Memorandwm Rhif 3, paragraff 14

ysgol yn dod o fewn cymhwysedd y Senedd (gan gynnwys felly gymal 35 ac Atodlen 2).[76]

**48.** O ran cymal 63, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn datgan nad oes unrhyw bwerau cyfatebol ar gyfer Gweinidogion Cymru yn y Bil ar hyn o bryd a bod y mater hwn wedi'i godi gyda Llywodraeth y DU, gyda'r bwriad o geisio pwerau perthnasol i Weinidogion Cymru.[77]

**49.** Dywed yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"Mae bod yn rhan o'r Bil hwn yn sicrhau bod plant Cymru yn cael yr un amddiffyniadau â phlant Lloegr o ran plant nad ydynt yn yr ysgol.*
>
> *Mae'r darpariaethau plant nad ydynt yn yr ysgol yn sicrhau cydraddoldeb yn y gyfraith ar draws Cymru a Lloegr yn y maes hwn ac yn rhoi pwerau i Gymru i gychwyn darpariaethau. Mae Llywodraeth Cymru yn mynd ar drywydd pwerau i Weinidogion Cymru mewn perthynas â phwerau canlyniadol."*[78]

**50.** Dyma gasgliad yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"Yn fy marn i, mae'n briodol i Senedd y DU ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan y byddant yn gwella polisi presennol ac arfaethedig Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phlant nad ydynt yn yr ysgol. Felly, rwy'n argymell y dylai'r Senedd gefnogi'r cynigion a rhoi ei chydsyniad."*[79]

# 2. Ystyriaeth y Pwyllgor

**51.** Fel y nodwn uchod, gwnaethom ystyried y Memorandwm a chymryd tystiolaeth gan yr Ysgrifennydd Cabinet a'r Gweinidog ar 12 Mai 2025.

**52.** Gwnaethom ystyried ein hadroddiad yn ein cyfarfod ar 14 Gorffennaf 2025[80] a chytunwyd arno mewn cyfarfod pellach ar 15 Medi 2025.[81]

---

[76] Memorandwm Rhif 3, paragraffau 16 i 17
[77] Memorandwm Rhif 3, paragraff 18
[78] Memorandwm Rhif 3, paragraffau 19 i 20
[79] Memorandwm Rhif 3, paragraff 22
[80] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Gorffennaf 2025
[81] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Gorffennaf 2025

## Ein barn ni

**53.** Nodwn asesiad Llywodraeth Cymru o'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, fel y nodir yn y Memorandwm, ym Memorandwm Rhif 2 ac ym Memorandwm Rhif 3.

**54.** Nodwn hefyd safbwynt Llywodraeth y DU o ran cydsyniad.

**Casgliad 1.** Rydym yn cytuno ag asesiadau Llywodraeth Cymru, fel y'i nodir yn y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd hyd yma gan yr Ysgrifennydd Cabinet, o'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer yn unol â Rheol Sefydlog 29.

**55.** Rydym wedi mynegi ein barn a'n pryderon o'r blaen ynghylch egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer defnyddio Biliau'r DU i ddeddfu[82] ac wedi trafod ei hegwyddorion diwygiedig gyda'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, Julie James AS, mewn sesiwn dystiolaeth ar 9 Rhagfyr 2024.[83] Nodwn y safbwyntiau a fynegwyd gan yr Ysgrifennydd Cabinet ar y mater hwn. Yn gysylltiedig â hyn, rydym hefyd yn nodi ei sylw y bu ymgysylltu rhagweithiol â Llywodraeth y DU gyda'r bwriad o ddatblygu darpariaethau datganoledig o fewn Bil Llywodraeth y DU, yn unol ag arfer blaenorol Llywodraeth Cymru.

**56.** Barn gyffredinol y Pwyllgor yw mai'r ffordd i gyflawni canlyniadau sydd er budd gorau Cymru yw deddfu drwy gyfrwng Bil a gyflwynir i Senedd Cymru, ac a gaiff ei graffu gan Senedd Cymru.

**57.** Byddai Bil a gyflwynir i'r Senedd, er enghraifft, yn caniatáu i'r Pwyllgor hwn roi ystyriaeth fanwl i'r holl bwerau gwneud rheoliadau sy'n cael eu dirprwyo i Weinidogion Cymru (fwy na thebyg i'w defnyddio yn y Seithfed Senedd) ac i wneud argymhellion ar gyfer gwelliannau i'r Bil lle bo angen. Byddai'r broses hon yn cynnwys ystyried lefel y manylder ar wyneb y Bil sy'n berthnasol i'r pwerau hynny ac i ba raddau y caiff y pwerau hynny eu dirprwyo, gan gynnwys sut y byddai'r Ysgrifennydd Cabinet yn bwriadu eu defnyddio ac asesiad o sut y gellid eu defnyddio.

**58.** Nodwn, o'r 11 o bwerau gwneud rheoliadau (ac eithrio'r rhai i gychwyn darpariaethau), fod naw yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol neu'r

[82] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad Blynyddol 2021/22, Hydref 2022
[83] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 9 Rhagfyr 2024, Gweler hefyd ohebiaeth ddilynol a gafodd ei chyfnewid: Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 17 Rhagfyr 2024; Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 9 Ionawr 2025

weithdrefn gadarnhaol yn y lle cyntaf.[84] Nodwn sylwadau'r Ysgrifennydd Cabinet y bydd gweithredu drwy is-ddeddfwriaeth yn darparu llawer o gyfleoedd ar gyfer ymgynghori a chraffu. Fodd bynnag, bydd y Senedd a'i Haelodau etholedig yn wynebu pleidleisio ar offerynnau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ar sail 'popeth neu ddim byd' oherwydd nid yw is-ddeddfwriaeth yn destun craffu llinell wrth linell ac nid oes modd ei diwygio. Ar ben hynny, mae'r amser sydd ar gael i bwyllgorau'r Senedd ac Aelodau o'r Senedd graffu ar is-ddeddfwriaeth yn gyfyngedig.[85]

**59.** Credwn y dylai fod wedi bod yn bosibl, o leiaf, i ddeddfu ochr yn ochr â Llywodraeth y DU i alluogi Aelodau o'r Senedd i gael mwy o lais ar ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â phlant yng Nghymru. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried bod y materion hyn wedi bod o dan ystyriaeth yng Nghymru ers dros ddegawd.

**60.** Serch hynny, rydym yn cydnabod ymrwymiad personol yr Ysgrifennydd Cabinet i'r materion sy'n destun y memoranda hyn. Yn ogystal, rydym yn cydnabod y rhesymeg gynhwysfawr dros y dull a gymerwyd a ddarparwyd gan yr Ysgrifennydd Cabinet a'r Gweinidog.

**61.** Rydym yn croesawu parodrwydd yr Ysgrifennydd Cabinet i fyfyrio ynghylch a ddylai'r Memorandwm fod wedi cynnwys gwybodaeth am ganlyniad trafodion y Cyfnod Adrodd. Er ein bod yn cydnabod nad yw hyn yn ofyniad o dan Reol Sefydlog 29, byddai wedi bod yn ddefnyddiol i ni i helpu gyda'n gwaith craffu. Rydym yn bwriadu tynnu sylw'r Pwyllgor Busnes at y mater hwn fel y gall ei ystyried mewn unrhyw adolygiad y mae'n ei gynnal o'r Rheol Sefydlog honno wrth i ni agosáu at y Seithfed Senedd ac yn dilyn ein llythyr ym mis Mehefin 2024 sy'n argymell adolygiad gweithredol llawn.[86]

**62.** Mae paragraff 50 o'r Memorandwm yn nodi:

> *"Er y gellid cyflwyno darpariaeth mewn Bil gan y Senedd, byddai gwneud hynny'n effeithio ar gyflawni blaenoriaethau deddfwriaethol eraill ac ni ellid ei chyflawni o fewn yr un amserlenni â Bil y DU."*

**63.** Gwnaethom archwilio'r pwynt a wnaed ynglŷn â methu â darparu Bil a gyflwynir i'r Senedd o fewn yr un amserlen â phe bai Bil Llywodraeth y DU yn cael ei gyflwyno i Senedd y DU. Gwnaeth yr Ysgrifennydd Cabinet a'r Gweinidog

[84] Y Memorandwm, paragraff 47; Memorandwm Rhif 2, paragraff 16
[85] Yn rhinwedd Rheolau Sefydlog 21 a 27
[86] Llythyr at y Pwyllgor Busnes, 5 Mehefin 2024

gydnabod nad oedd Llywodraeth Cymru wedi trafod y materion hyn gyda'r Pwyllgor Busnes, sy'n gyfrifol am ddyrannu biliau i Bwyllgorau i'w craffu, a hefyd yr amserlenni ar gyfer y gwaith craffu hwnnw. Mae hyn yn bwysig oherwydd bod Llywodraeth Cymru, yn ystod y Chweched Senedd, yn aml wedi cyfiawnhau ei defnydd o Fil Llywodraeth y DU i ddeddfu mewn maes datganoledig ar y sail y byddai'n gyflymach yn y bôn defnyddio Bil o'r fath yn hytrach na chyflwyno Bil i Senedd Cymru. Fodd bynnag, ni ellir dod i'r casgliad hwn os nad oes trafodaethau wedi'u cynnal gyda'r Senedd drwy'r Pwyllgor Busnes neu'r Pwyllgorau craffu (ac yn yr un modd heb wybodaeth am yr amseriadau ym mhob Tŷ Senedd y DU). Os yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu trafod amserlennu gyda phwyllgorau'r Senedd, dylai wneud hynny cyn dechrau trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch defnyddio un o'i Biliau a neilltuo'r adnoddau sylweddol sydd eu hangen at y diben hwnnw.

**Argymhelliad 1.** Cyn datgan bod gallu a chapasiti'r Senedd wedi atal Llywodraeth Cymru rhag cyflwyno ei Biliau ei hun i'r Senedd ac felly wedi arwain at Lywodraeth Cymru yn gofyn am a/neu'n derbyn y cynnig o ddarpariaethau'n cael eu cynnwys mewn Biliau sy'n cael eu cyflwyno i Senedd y DU, dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â'r Pwyllgor Busnes yn gyntaf a thrafod y cyfleoedd gweithdrefnol sydd ar gael i Lywodraeth Cymru a fyddai'n ei galluogi i gyflwyno ei deddfwriaeth ei hun.

**64.** Nodwn fod cymal 11 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd, sy'n gwneud darpariaeth mewn maes datganoledig, yn ddarostyngedig i'w cychwyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol, yn wahanol i gymalau 30 i 35 ac Atodlen 2 i'r Bil a ddygwyd o Dŷ'r Cyffredin sy'n ddarostyngedig i'w cychwyn gan Weinidogion Cymru.

**Argymhelliad 2.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet esbonio pam mae cymal 11 yn ddarostyngedig i'w cychwyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn hytrach na Gweinidogion Cymru, gan gynnwys pam nad oes gofyniad am gydsyniad wedi'i gynnwys pe bai hynny'n berthnasol.

**65.** Mae paragraff 26 o Femorandwm Rhif 2 yn cyfeirio at y gwelliant a gyflwynwyd i gymal 26 o'r Bil (fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Arglwyddi) fel un sydd, yn bennaf, yn ffordd o ddisodli pŵer gwneud is-ddeddfau awdurdodau lleol gyda phŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru. Yn y paragraff hwnnw, mae'r Ysgrifennydd Cabinet hefyd yn datgan mai un effaith arall o'r gwelliant yw caniatáu i blentyn weithio tan 8pm, yn hytrach na 7pm, ond bod hyn yn parhau i fod yn gyson â rhwymedigaethau rhyngwladol. Nid ydym yn glir ynghylch pa rwymedigaethau rhyngwladol y cyfeirir atynt.

**Argymhelliad 3.** Dylai’r Ysgrifennydd Cabinet egluro at ba rwymedigaethau rhyngwladol y mae hi'n cyfeirio ym mharagraff 26 o Femorandwm Rhif 2.

**66.** Nodwn fod trafodaethau’n parhau gyda Llywodraeth y DU ynghylch cymal 63 o’r Bil.

**Argymhelliad 4.** Dylai’r Ysgrifennydd Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch cymal 63 o'r Bil (fel y’i dygwyd o Dŷ’r Cyffredin) a chadarnhau, yn unol ag egwyddorion Llywodraeth Cymru ar ddeddfwriaeth y DU mewn meysydd datganoledig, ei bod yn ceisio rhoi pwerau i Weinidogion Cymru yn unig ac nid pwerau cydredol i'w harfer gyda Gweinidogion y DU.

**67.** Nodwn hefyd nad yw Memorandwm Rhif 3 yn cynnwys gweithdrefn graffu’r Senedd sydd ynghlwm wrth wneud rheoliadau o dan gymal 66, fel sy’n ofynnol gan Reol Sefydlog 29.3(iv).

**Argymhelliad 5.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet gadarnhau’r weithdrefn graffu i'w chymhwyso i wneud rheoliadau o dan gymal 66 o'r Bil (fel y’i dygwyd o Dŷ’r Cyffredin).